Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Chwefror 2020.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones, Anwen Humphreys, Clifford Williams, Dylan Pritchard – Garndolbenmaen, Huw Pritchard, Delyth Evans, Manon Jones Evans – Pentrefelin, Amanda N Owen – Golan, Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa. Cynghorydd Stephen Churchman.

2 Ymddiheuriadau – Iddon Edwards, Megan Lloyd Williams, Richard Williams, Gwilym Evans. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – Eitem 12 Rhoddion Ariannol – Richard Parry, Anwen Humphreys, Delyth Evans, Dylan Pritchard, Huw Pritchard.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 2/1/20 Huw Pritchard yn datgan eu cywirdeb a Richard Parry yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Materion Priffyrdd Rhagfyr 2019
Bryncir – mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Cwmni Chwarel.

A497 Ochr Criccieth i arwydd 30 mya Pentrefelin - mae wyneb y lôn ar hyn o bryd o fewn goddefiad risg.

Ciosgs BT

Golan a Penmorfa - derbyniwyd e-bost gan BT yn hysbysu'r Cyngor ei fod yn bosib mabwysiadu'r ciosg dyluniad newydd ar yr amod ei bod yn cael ei defnyddio i osod diffibriliwr. Penderfynwyd peidio mabwysiadu ciosg Golan a gofyn am estyniad amser i wneud ymholiadau pellach ynglŷn â safle addas i osod diffibriliwr ym Mhenmorfa.

Ciosg Cwmystradllyn - Bydd y ciosg yn parhau mewn gwasanaeth.

Gwasanaeth cludiant Ysbyty Alltwen Tremadog
Derbyniwyd ateb gan Uned Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd. Hysbyswyd Cyngor Gwynedd gan gwmni Arriva nad oes digon o deithwyr yn defnyddio'r

gwasanaeth (15 person mewn mis). Mae Arriva yn fodlon ystyried adfer rhai o'r siwrneiau os yw'n bosib profi bod eu hangen. Clerc i gysylltu gyda Chyfeillion Ysbyty Tremadog i holi os ydynt yn gallu helpu i gael gwybodaeth am yr angen gan ymwelwyr i'r ysbyty.

Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd – canllawiau cynllunio ynglŷn â siediau
Derbyniwyd ateb yn nodi fod rheolau gwahanol yn dibynnu ar y math o sied, ei ddefnydd a'i leoliad. Derbyniwyd copi o 'Guide for Householders' sy'n amlinellu'r rheolau cyffredinol ar ddatblygiadau i dai.

Rheilffordd Eryri - golau ar y platfform

Mae Rheolwr Gwasanaeth Traffig Cyngor Gwynedd wedi cysylltu gyda'r rheilffordd yn gofyn iddynt roi sylw brys i'r mater.

Llwybr Cyhoeddus Mynydd Gorllwyn/Llyn Du

Mae Swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri am gysylltu gyda'r person sydd wedi tynnu sylw'r Cyngor Cymuned at gyflwr y gamfa.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel - y fynwent yn edrych yn daclusach ers gosod y bin.

Mynwent Penmorfa – Er gwybodaeth. Derbyniodd y Cyngorhydd Stephen Churchman gais i wella mynediad i'r fynwent. Gellir gwella'r mynediad drwy symud y giatiau a rhoi arwyneb gwell ar rhan o'r lôn. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chyngor Gwynedd a Stad y Wern.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Pentrefelin llwybr Bont y Wern i Pont Faen - cadarnhawyd fod y llwybr ar y rhestr o lwybrau sy'n cael eu torri.

9 Adroddiad Pentrefi

Penmorfa - angen glanhau landar y cysgodfan bws. Penderfynwyd ei drafod yn y pwyllgor eiddo fydd yn cael ei gynnal ym mis Mawrth.

Garndolbenmaen

Cerrig ar y lôn yn ardal Mynydd Glas.

Pentrefelin – ardal y Wern. Derbyniwyd cwyn fod y peiriant glanhau'r stryd yn gweithio yn yr ardal tua 3.45 y bore. Hwyrach fod hyn yn dderbyniol yng nghanol tref, ond nid yng nghefn gwlad.

Clerc i gysylltu gyda Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd.

10 OWL Cymru

Derbyniwyd gohebiaeth gan OWL Cymru (Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth) yn nodi na fyddant yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth am ddim. Ar hyn o bryd, mae 63 o aelodau yn ardal Dolbenmaen. Byddai angen i'r Cyngor Cymuned dalu am y ddarpariaeth, neu gall unigolion dalu os ydynt am barhau gyda'r gwasanaeth. Penderfynwyd peidio talu am y gwasanaeth.

11 Pwyllgor Ardal Dwyfor 22ain o Ionawr Adeilad yr Institiwt Caernarfon

Mynychodd y Clerc y cyfarfod uchod. Derbyniwyd rhestr o'r wybodaeth angenrheidiol i gynnwys ar y gwefan. Yn sgil hyn, bydd angen ychwanegu - ymlyniad gwleidyddol Cynghorwyr, Datganiad o Fuddiant Personol a'r Ffurflen Flynyddol Archwiliad Allanol.

12 Rhoddion Ariannol

Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol –

£300 – Neuaddau Garndolbenmaen, Golan, Penmorfa, Prenteg, Pentrefelin, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog.
£200 – Age Cymru Gwynedd a Môn.
£150 – Eisteddfod Garndolbenmaen.
£100 – Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Garndolbenmaen, Cyfeillion Ysgol y Gorlan, Cylch Meithrin Garndolbenmaen.
£50 – Cwmni Drama Llanystumdwy.

13 Gohebiaeth
Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – ail rybudd cau ffordd gyferbyn â Llecheiddior Uchaf Bryncir o 5/2/20.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol. Canllaw syml ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

b Unllais Cymru – Adroddiad Mike Parry Cyfarfod Grŵp Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr.

c Unllais Cymru – ymateb Unllais Cymru i ymgynghoriad y Bil Llywodraethol ac Etholiadol Cymru.

ch Mabon ap Gwynfor – diweddariad Canolfan Ddeiagnostic Canser.

d Yr Wylan – llythyr diolch.

dd Coleg Llandrillo Menai – Digwyddiad Rhwydweithio Busnes.

Ychwanegwyd

e Parc Cenedlaethol Eryri – ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Eryri. Dosbarthwyd posteri.

ff Hunaniaith – Gweithdy Syniadau.

14 Cynllunio

Rhestrau – dim.

Ceisiadau Cynllunio

C19/1217/36/CC Plas Dolbenmaen, Garndolbenmaen, Gwynedd. LL51 9RQ Cais ar gyfer gwaith coed wedi eu gwarchod gan Orchymyn Gwarchod Coed. Dyddiad cau 3/2/20. Dim gwrthwynebiad.

C19/1182/44/LL Cil Llidiart, Prenteg. LL49 9SU Codi strwythur a chreu ystorfa silwair newydd. Dyddiad cau 5/2/20. Dim gwrthwynebiad.

15 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: gweler eitem rhif 12.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 61.63

Y Ffynnon = £ 28.00
Ychwanegwyd
Gwasg y Bwthyn = £ 14.16

Derbyniadau: - Ad-daliad llwybrau cyhoeddus £886.00. Pritchard & Griffiths £140.00.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,826.79 Cyfredol £10,181.73.

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Ceisiadau Cynllunio
- Ceisiadau ariannol.

Gwefan – Cofnodion Ionawr.